

Polisi Rhandaliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol

**Polisi Rhandaliadau
Ardoll Seilwaith Cymunedol**

Bydd y polisi yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2014

Bydd y Rhestr Codi Tâl yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2014. Ystyr hyn yw y bydd unrhyw gais cynllunio a gaiff ei benderfynu cyn neu ar ôl y dyddiad hwnnw yn agored i ddarpariaethau'r Rhestr Codi Tâl.

Dyma ddogfen atodol i'r Rhestr Codi Tâl ac mae'n nodi'r Polisi Rhandaliadau y bydd y Cyngor yn ei ddefnyddio wrth ofyn am daliadau am Ardoll Seilwaith Cymunedol.

Polisi Rhandaliadau

Yn unol â Rheoliad 69B o Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'u diwygiwyd), bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn caniatáu i unigolion dalu Ardoll Seilwaith Cymunedol mewn rhandaliadau, fel y nodir yn y tabl isod. Bydd y rhandaliadau a ganiateir yn cysylltu â'r swm sy'n daladwy, fel y nodir yn yr hysbysiad hawlio.

Polisi Rhandaliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol

Swm yr Ardoll Seilwaith Cymunedol

Nifer y Rhandaliadau

Cyfnod Talu

Symiau hyd at £50,000 2

- 50% o fewn 90 diwrnod o'r diwrnod dechrau
- 50% o fewn 180 diwrnod o'r diwrnod dechrau

Symiau rhwng £50,001 a £100,000 3

- 30% o fewn 90 diwrnod o'r diwrnod dechrau
- 30% o fewn 180 diwrnod o'r diwrnod dechrau
- 40% o fewn 270 diwrnod o'r diwrnod dechrau

Symiau rhwng £100,001 a £200,000 4

- 25% ar y diwrnod dechrau
- 25% o fewn 180 diwrnod o'r diwrnod dechrau
- 25% o fewn 270 diwrnod o'r diwrnod dechrau
- 25% o fewn 360 diwrnod o'r diwrnod dechrau

Symiau £200,001 a £1,000,000 5

- 20% ar y diwrnod dechrau
- 20% o fewn 180 diwrnod o'r diwrnod dechrau
- 20% o fewn 360 diwrnod o'r diwrnod dechrau
- 20% o fewn 540 diwrnod o'r diwrnod dechrau
- 20% o fewn 720 diwrnod o'r diwrnod dechrau

Unrhyw swm yn fwy na 5
£1,000,000

- 20% ar y diwrnod dechrau
- 20% o fewn 360 diwrnod o'r diwrnod dechrau
- 20% o fewn 720 diwrnod o'r diwrnod dechrau
- 20% o fewn 1080 diwrnod o'r diwrnod dechrau
- 20% o fewn 1460 diwrnod o'r diwrnod dechrau

Nodiadau:

1. Os bydd caniatâd cynllunio amlinellol yn caniatáu adeiladu datblygiad mewn camau, bydd pob cam yn ddatblygiad ar wahân sy'n daladwy. Mae'n bosibl y bydd y swm yn cael ei gasglu yn unol â'r Polisi Rhandaliadau.

2. Yn y Polisi Rhandaliadau, does dim sôn na chaiff yr unigolyn sy'n atebol i dalu Ardoll Seilwaith Cymunedol dalu swm yr Ardoll Seilwaith Cymunedol sy'n weddill (yn llawn neu'n rhannol) cyn cyfnod y rhandaliad sydd wedi'i nodi yn y polisi yma.

Mae'r Polisi Rhandaliadau dim ond yn berthnasol mewn achosion lle mae'r unigolyn/unigolion sy'n atebol i dalu Ardoll Seilwaith Cymunedol wedi cydymffurfio â'r holl reoliadau a gofynion perthnasol.

Nodiadau Canllaw Rhandaliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol

Mae Rheoliad 70 o Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi'r gofynion y mae rhaid cydymffurfio â hwy er mwyn buddio o Bolisi Rhandaliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol.

Polisi Rhandaliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol

Bydd Polisi Rhandaliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol **dim ond yn berthnasol** yn yr amgylchiadau canlynol:

- Pan fo'r Cyngor wedi derbyn ffurflen ymgymryd ag atebolrwydd cyn dechrau'r datblygiad sy'n daladwy (Rheoliad 70(1) (a)); a
- Pan fo'r Cyngor yn derbyn Hysbysiad Dechrau Ardoll Seilwaith Cymunedol cyn dechrau'r datblygiad sy'n daladwy (Rheoliad 70(1) (b)).

Os na chydymffurfir â'r naill reoliad neu'r llall, bydd swm yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yn daladwy o fewn 60 diwrnod o ddechrau'r datblygiad sy'n daladwy. Yn ogystal â hyn, mae'n bosibl y bydd taliadau ychwanegol yn berthnasol os na chaiff ffurflen ymgymryd ag atebolrwydd a/neu'r hysbysiad dechrau eu cyflwyno i'r Cyngor cyn dechrau'r datblygiad sy'n daladwy.

Unwaith i'r datblygiad ddechrau, rhaid i holl daliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol gael eu cyflwyno yn unol â Pholisi Rhandaliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol. Os na chaiff taliad ei gyflwyno'n llawn cyn y dyddiad mae'n ddyledus, neu ar y diwrnod hwnnw, bydd raid talu'r cyfanswm sy'n daladwy yn llawn yn syth (Rheoliad 70(8)(a)).

I grynhoi

Er mwyn buddio o Bolisi Rhandaliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol, rhaid cyflwyno'r ffurflenni perthnasol i'r Cyngor cyn y datblygiad sy'n daladwy, a rhaid i'r holl daliadau gael eu cyflwyno yn unol â Pholisi Rhandaliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol.